

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd 3ydd Mai 2017 am 7.00 o'r gloch.**

**Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 3rd May 2017 at 7.00pm.**

**1. Croeso/Welcome** - Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol. / *Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*

**Presennol/Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Cadeirydd), Mary Ellis, Dafydd Roberts, Ann Sutton, Delyth Jones, Ruth Roberts, Alan Owen, Scott Paterson, a Geraint Parry (Clerc).

**Nodyn / Note** - dilyn mater gweinyddol rhwng y Clerc a Swyddfa Etholiad y Cyngor Sir gyda ffurflen etholiad Cyng. M Ellis, yn dilyn trafodaeth cytunwyd yn unfrydol i ail cyfethol Cyng. M Ellis / *Following administrative issue between the Clerk and Electoral Office of the County Council with Clr M Ellis election form, following deliberation it was unanimously agreed re-co opt Clr M Ellis*

**2. Ymddiheuriadau/Apologies:-** Cyng. L Davies, C Jones, W Hughes ac G Moore.

**3. Cofnodion/Minutes**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed o Ebrill fel rhai cywir gan Cyng. D Jones, eiliwyd gan Cyng. R Roberts. / *Minutes of the previous meeting held on 5th of April were accepted as accurate by Clr. D Jones, seconded by Clr.R Roberts.*

**4. Datgan Diddordeb/Declaration of interest**

- Cyng. M Ellis ac D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol. / *Clr. M Ellis and D Jones on the discussion about the Community Group.*
- Cyng. A Owen ar drafodaeth Neuadd y Pentre' / *Clr. A Owen on the discussion regarding the Village Hall*

**5. Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- 5.1 Grŵp Seiriol - cais am grant ar gyfer diffibriliwr allanol yn llwyddiannus ac mae cyfrif y grŵp wedi ei sefydlu. Clerc i ofyn am ganiatâd adran Tai i osod y diffibriliwr yn y Lolfa Cymunedol, Pont y Brenin. Clerc i ymgynghori gyda BT ynglŷn â mabwysiadu ciosg ger Mona Teras / *Seiriol Group - grant application for an external defibrillator has been successful, and the group's bank account has been set up. Clerk to seek permission from the Housing department to fix the diffirilator on the wall of the Community lounge at Pont y Brenin. Clerk to consult with BT regarding adopting the Kiosk by Mona Terrace.*
- 5.2 Cwlfer yn afon ger y trac i Glan Llyn wedi'i rhwystro eto. Adroddodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn gwneud cais am grant er mwyn gwella llif dwr o rai eiddo gyferbyn a'r Neuadd ac yn mynd i gynyddu maint cwlfer yn yr afon. / *Culvert in the river by the track to Glan Llyn is blocked again. Clerk reported that the County Council is applying for a grant so as to improve the flow of water from certain properties opposite the Village Hall and increase the size of the culvert in the river.*
- 5.3 Cwyn ynglŷn ar gar a threlar sydd wedi barcio ar allt Glanrafon yn anghyfreithlon ger Teras Coedwig. Adroddodd y Cyngor Sir fod hwn yn fater i'r Heddlu. / *Complaint about the car parked on Glanrafon Hill and the trailer parked illegally by Coedwig Terrace. The County Council reported that this is a matter for the Police.*
- 5.4 Trefi Taclus - os yw'r cais yn llwyddiannus bydd y Cyngor Sir yn gobeithio bydd y digwyddiad yma yn ei gynnal ym mis Mai / *Tidy Towns - if the application is successful the County Council hope this event will take place in May.*
- 5.5 Cerbydau trwm wedi bod yn croesi'r tir ger Eglwys Penmon sy'n arwain at y Barracks wedi gadael y llwybr yn fwdlyd iawn. Cyngor Sir wedi cysylltu ar ffermwr cyfrifol i adfer y llwybr troed / *Heavy vehicles have been crossing the land by Penmon Church that leads passed the Barracks have left the footpath very muddy. County Council have contacted the farmer responsible to reinstate the footpath.*
- 5.6 Cyngor Sir wedi gorffen gwaith gynnal a chadw ffosydd ar lôn White Beach / *County Council have completed the maintenance work on the ditches on White Beach lane.*
- 5.7 Clerc wedi gwahodd Pennaeth Cynllunio i fynychu ein cyfarfod er mwyn trafod penderfyniadau cynllunio diweddar, disgwyl ymateb. Clerc i ddilyn y mater i fyny. / *Clerk has invited the Head of Planning to attend our meeting in order to discuss recent planning decision, awaiting a response. Clerk to follow up on this matter.*

- 5.8 Wal ger gwaith trin carthion yn suddo. Dwr Cymru yn trafod y mater gyda'r Cyngor Sir. Dim gwybodaeth bellach / *Wall by the sewerage works is subsiding. Welsh Water are discussing the mater with the County Council. No further information.*
- 5.9 Fynwent y plwyf - derbyniwyd pryder am y toriadau o gwmpas y cerrig beddi. Clerc i gysylltu ar gontractwr. / *Community Cemetery - received concern regarding the cuttings around the headstones. Clerk to contact the contractor.*
- 5.10 Torri coed ger Bont y Rhyd - Clerc i gysylltu gydag arbenigwr coed / *Cutting trees by Bont y Rhyd - Clerk to consult with a tree specialist*
- 5.11 Dilyn ymweliad gan yr Heddlu, cais am arwydd "No Ball Playing" wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir / *Following the Police visit, application for "No Ball Playing sign" has been submitted to the County Council*
- 5.12 Clerc i gysylltu â Biffa ynghylch gwasanaeth glanhau o gwmpas y pentre / *Clerk to contact Biffa regarding cleaning service around the village.*
- 5.13 Clerc i holi'r Cyngor Sir ynghylch yr anfoneb cynnal a chadw llwybrau gan Gerddi Haulfre/ *Clerk to enquire the County Council regarding the invoice for footpath maintenance from Gerddi Haulfre.*
- 5.14 Dwr Cymru yn bwriadu dechrau'r gwaith ym mis Gorffennaf ac fe fydd y gwaith yn cymryd tua 7 mis i gwblhau. Maent yn gobeithio trefnu sesiwn gwybodaeth i'r gymuned / *Welsh Water are hoping to start the work in July and should take about 7 months to complete. They are also planning an information event for the community.*
- 5.15 Tyllau yn wal Lleiniog yn gwaethygu. Clerc i gysylltu â'r adran Briffyrdd / *The holes in the wall at Lleiniog is getting worse. Clerk to contact the Highways department.*
- 5.16 Clerc i gyflwyno'r holl waith papur ar gyfer Archwiliad 2016/17 i'r archwilydd mewnol ar 5/05/17 / *Clerk to present all the Audit 2016/17 paperwork to the Internal auditor on 5/05/17*

## **6. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications**

- 35C289D/VAR - Barracks Cottage, Penmon - cais o dan adran 73 i newid amod 02 o caniatad rhif 35C289B/VAR er mwyn caniatáu defnydd o lechi o Ganada - gwrthwynebu i'r amrywiad. Defnyddio llechi Cymreig er mwyn gweddu i'r ardal o gwmpas / *Application under section 73 for the variation of condition 02 from planning 35C289B/VAR so as to allow the use of Canadian slate - object to the variation. Use welsh slate in order to blend in with the surrounding area*
- 35C319C/MIN - Capel Ty Rhys, Llangoed - man newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatau yn flaenorol o dan gynllun 35C319 er mwyn ehangu'r bondo - dim gwrthwynebiad / *Minor amendments to the scheme previously approved 35C319 so as to extend the eaves - no objection.*

## **7. Adroddiad gan y Cynghorwr Lleol / Report by the County Councillor**

Dim adrodd / *No report*

## **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

Dim adrodd y tro yma / *No report to on this occasion*

## **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

- Digwyddiadau Pasg yn Iolfa Pont y Brenin lle mynychodd tua 30 o blant / *Easter events held at the Lounge at Pont y Brenin where about 30 children attended.*
- Grant Bagiau Tesco - grŵp wedi penderfynu peidio â dilyn y cais am grant / *Grant via Tesco bags - the group have decided not to pursue the grant application*
- Sgwâr Tawelfan. Mae'r Girl Guides wedi cytuno i gynnal chwynnu a phlannu blodau / *Tawelfan Square - the Girl Guides have agreed to carry out weeding and plant flowers.*
- Grŵp wedi cyfathrebu a'r Heddlu ynghylch digwyddiadau a gynlluniwyd / *Group have communicated with the Police regarding planned events.*
- Mae nifer o alwadau di-wahoddiad wedi cynyddu yn y Pentref. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir ynghlŷn ag arwydd / *The number of cold calling has increased in the Village. Clerk to contact the County Council regarding a sign.*
- Chwaraeon Cymru wedi cael eu trefnu ar gyfer digwyddiadau dros y gwyliau haf / *Sports Wales have been booked for a 5 weekly event*
- Groundworks yn mynychu digwyddiad ar y cae cymunedol ar 15/05. Cytunwyd iddynt ddefnyddio'r cae / *Groundworks attending an event on the community field on 15/05. It was agreed for them to use the Community Field.*
- Noson cacennau wedi cael ei drefnu gan y Girl Guides yn y Canolfan Cymunedol ym mis Mehefin / *Cup cake evening has been arranged by the Girl Guides in the Community Hub in June*

- Mae nifer o dyllau yn y ffordd ger Tŷ Dewi, Penmon / *A number of potholes in the road by Tŷ Dewi, Penmon*

### **10. Tir Commin / Common Land**

Dilyn nifer o geisiadau, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei dderbyn sy'n ymwneud a hawl tramwy ger Gorwel gan berchnogion Penmariann Mawr / *To date, and following numerous requests, no evidence has been provided relating to right of way by Gorwel by the owners of Penmariann Mawr.*

### **11. Cyfrifon / Accounts**

Dim taliadau / *No payments*

### **Incwm / Income**

Praesept / *Precept - £3,368.00*

### **12. Gohebiaeth / Correspondence**

- Swyddfa Awdit Cymru / *Welsh Audit Office*
- Llythyr o ddiolch gan Ffermwyr Ifanc Môn / *Letter of thanks from Anglesey Young Farmers*
- Apêl Cerdded am Oes / *Appeal Walk for Life*

### **13. UFA/AOB:**

- 13.1 Cyng. D Jones yn adrodd bod yn disgwyl am geiser newydd i Lolfa Cymunedol / *Clr. D Jones reports that they are waiting for a new geyser for the Community Lounge*
- 13.2 Clerc i ofyn a yw'n bosib cael bin baw cŵn a lleolir wrth fynedfa i Tros yr Afon, Penmon / *Clerk to request if it's possible to have a dog litter bin situated by Tros yr Afon entrance, Penmon.*
- 13.3 Cyng. M Ellis - wedi derbyn cwynion bod faniau camper yn cymryd llawer o le ym maes parcio Lleiniog a hefyd yn parcio ger Tŷ Lleiniog / *Clr. M Ellis - has received reports that Camper vans are taking up a lot of room at Lleiniog Car Park and also parking by Lleiniog House.*
- 13.4 Mae dŵr yn gollwng o'r ffordd ger Simdde Wen, Glanrafon / *Water is leaking from the road by Simdde Wen, Glanrafon*
- 13.5 Cyng. S Paterson yn adrodd bod Pwyllgor cylchlythyr Puffin yn gwneud cais am statws elusen. Fel rhan o'r cais, os yw'r pwyllgor yn chwalu y byddai unrhyw arian dros ben yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned. Dilyn trafodaeth, pawb yn gytûn. / *Clr. S Patterson reports that the Puffin newsletter committee are applying for Charity status. As part of the application, if the committee disbanded that any residue money would be transferred to the Community Council. Following deliberation, all in agreement.*
- 13.6 ROSPA yn cynnal arolygiad offerion maes chwarae plant yn fis Mehefin / *ROSPA are carrying out an inspection of the children's play equipment in June*
- 13.7 Mae twll enfawr yn y ffordd ger Ty Ddewi, Penmon / *Large hole in the road by Ty Ddewi, Penmon*
- 13.7 Diolchwyd i Cynghorwyr Ruth Roberts a Gareth Moore am eu gwaith caled a gwasanaeth i'r Cyngor Cymuned / *We thanked Clr's Ruth Roberts and Gareth Moore for their hard work and service to the Community Council.*
- 13.8 Cyng. W Hughes wedi cysylltu ynglŷn â chais i wella mynedfa i Terfyn ac eiddo eraill ar y trac. Mae'r trac yn ffurfio rhan o lwybr cyhoeddus ac mae'r berchnogaeth yn aneglur / *Clr. W Hughes has been in contact regarding the application to improve the surface of the entrance to Terfyn and other properties on this track. This track also forms part of the Public Footpath and the ownership is unclear.*

### **14. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 8.40 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 07/06/17 i gynnwys y cyfarfod blynyddol  
*There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 8.40pm. Next meeting 07/06/17 to include the annual general meeting.*

Llofnod y Cadeirydd/Signature

Dyddiad/Date